Community Housing Cymru

# Cynghorydd Ymchwil a Pholisi

**Cyflog: £39,000 flwyddyn**

**Buddion hael, gweithio gartref o unrhyw leoliad o'ch dewis yn y Deyrnas Unedig.**

**Dyddiad Cau: 5pm, 29ain Medi 2025**
**Llunio Rhestr Fer: 1af Hydref 2025**
**Cyfweliadau: 9fed Hydref 2025**

# Cynghorydd Materion Cyhoeddus a Pholisi

## Trosolwg o'r swydd

Ydych chi yn meddwl yn strategol ac yn angerddol am hybu newid drwy dystiolaeth? Rydym yn edrych am Gynghorydd Ymchwil a Pholisi i arwain ein rhaglen ymchwil a helpu i lunio dyfodol tai cymdeithasol yng Nghymru. Byddwch yn troi data yn ddirnadaeth, gan weithio ar draws timau i ddatblygu tystiolaeth gadarn sy'n cefnogi ein safbwyntiau polisi a'n gwaith eiriolaeth. O gydlynu ymchwil i gynghori ar brosiectau a gomisynir, bydd gennych ran allweddol wrth sicrhau fod ein hymgyrchoedd wedi seilio ar hygrededd ac effaith.

Yn y swydd ddeinamig a chydweithiol hon, byddwch hefyd yn arwain ar bortffolio o brosiectau polisi, gan adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gydag aelodau, partneriaid a gwneuthurwyr penderfyniadau. Byddwch yn ein helpu i gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad parhaus mewn tai cymdeithasol ac yn cefnogi ein cyfathrebu allanol. Os oes gennych feddwl strategol a sgiliau dadansoddi cryf ac angerdd am y sector tai cymdeithasol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

## Am Cartrefi Cymunedol Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru yw'r corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 30 o sefydliadau dim-er-elw sy'n darparu tai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig ar draws y wlad. Mae ein haelodau yn darparu cartrefi i dros 10% o boblogaeth Cymru ac yn ymroddedig i gyflenwi cartrefi fforddiadwy ansawdd uchel, mynd i'r afael â thlodi a gwella bywydau.

### Ein tîm staff

Rydym yn dîm staff ymroddedig sy'n cydweithio i alluogi ein haelodau i fod ein wych. Mae ein diwylliant yn un agored, ymddiriedus a gofalgar ac mae ein gwerthoedd yn dangos sut y gweithiwn gyda'n gilydd a hefyd sut y gweithiwn gyda'n haelodau a rhanddeiliaid. Mae gan staff y rhyddid i gyflawni eu swydd pryd a lle y maent yn gweithio orau.

Rydym yn annog arloesedd a bob amser yn ymchwilio ffyrdd newydd i wneud pethau yn well. Byddwn yn parhau i gefnogi staff i weithio'n hyblyg gyda ffocws ar ganlyniadau.

**Mae gennym 20 aelod o staff sy'n gweithio mewn tri thîm:**

1. **Gwasanaethau Busnes: Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth, Gweinyddiaeth, Cyllid, Llywodraethiant**
2. **Ymgysylltu ag Aelodau, Digwyddiadau a Llywodraethiant**
3. **Polisi a Materion Allanol: Polisi, Cyfathrebu, Ymchwil a Materion Allanol**

Mae staff CHC yn gweithio o bell o leiaf beth o'r amser, ac mae ein holl gontractau yn seiliedig gartref. Mae gennym hefyd ofod swyddfa bach yng nghanol Caerdydd lle caiff cydweithwyr eu hannog i ddod ynghyd a chydweithio i gefnogi eu gwaith.

Tra'n gweithio o bell, rydym yn annog staff i leoli am y dydd, gan eich galluogi i benderfynu lle byddech yn gweithio orau i sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer CHC a'n haelodau bydded hynny o'ch cartref, swyddfa un o'n haelodau, gofod cydweithio agos atoch chi neu siop goffi.

Mae cysylltiadau wrth galon ein holl waith. Mae amser mewn-person gyda'ch cydweithwyr, ein haelodau a'n partneriaid yn rhan hanfodol o feithrin y cysylltiadau rydym eu hangen i lwyddo ac mae'n ddisgwyliad gan ein holl staff.

Rydym yn dod ynghyd wyneb yn wyneb fel tîm staff llawn, bob chwe wythnos ar hyn o bryd – ac fel arfer yng Nghaerdydd – i gydweithio, arloesi a meithrin perthynas gyda'n gilydd. Rydym yn darparu'r offer a'r dulliau mae pob aelod o staff eu hangen i fod yn wych yn eu swydd. Rydym yn talu am dreuliau teithio ar gyfer dibenion gwaith.

## Ein Blaenoriaethau Strategol

Buom yn gweithio gyda'n haelodau am dros ddeng mlynedd ar hugain i wneud Cymru yn wlad lle mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb. Gyda'n gilydd rydym wedi cymryd camau breision ymlaen at gyflawni'r nod hon, ond gwyddom fod cymdeithasau tai, eu tenantiaid a chymunedau yn wynebu pwysau newydd a heriau na welwyd eu tebyg. Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi ein haelodau i gynnal eu cymunedau tra'n bod yn parhau i frwydro dros y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon.

Dros y pedair blynedd nesaf, bydd ein ffocws ar y camau gweithredu fydd yn cefnogi ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu cymunedau. Byddwn yn gweithio'n galed i

sicrhau cyllid sefydlog a digonol a fframwaith polisi i gefnogi buddsoddiad mewn cartrefi newydd a'r cartrefi a'r gwasanaethau cymorth presennol.

Gwnawn hyn drwy gynrychioli ein haelodau, gan weithredu fel llais dylanwadol i sicrhau newid. Byddwn yn gweithredu fel canolbwynt i ddod â'n haelodau ynghyd i ganfod datrysiadau ar y cyd i'r heriau a wynebwn. Erbyn 2027 rydym eisiau i'r sector fod wedi camu ymlaen yn gyflym unwaith eto a chyflawni pob un o'r nodau isod.

1. Sicrhau'r dulliau, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi ansawdd da gan gymdeithasau tai.
2. Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy'n fforddiadwy a rhoi cefnogaeth effeithlon i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.
3. Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.
4. Sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.

## Datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cartrefi Cymdeithasol Cymru yn ymroddedig i greu gweithle cynhwysol ac amrywiol lle mae pawb a gyflogir yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi.

Credwn fod gweithlu amrywiol yn ein helpu i ddeall ac ymateb yn well i anghenion ein haelodau a'r cymunedau a wasanaethwn.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob unigolyn beth bynnag eu hoed, hunaniaeth rhywedd, anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall a ddiogelir gan y gyfraith. Rydym yn ymroddedig i sicrhau fod ein prosesau recriwtio yn ddirwystr a chynhwysol i alluogi pob ymgeisydd i wneud cais yn hyderus.

Croesewir ceisiadau yn neilltuol gan bobl anabl a phobl ddu a lleiafrif ethnig. Rydym yn gwarantu cyfweld â'r ymgeiswyr hyn sy'n cyflawni'r isafswm meini prawf ar gyfer y swydd.

Caiff eich cais, yn cynnwys CV, eu hadolygu ar wahân cyn llunio'r rhestr fer i dynnu enwau sefydliadau addysgol, rhywedd ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol. Mae hyn er mwyn osgoi rhagfarn ddiarwybod a hyrwyddo cyfle cyfartal. Gofynnir i chi wneud eich gorau i'w tynnu o'ch cais cyn ei anfon er mwyn ein cynorthwyo gyda hyn.

Rydym eisiau i chi gael pob cyfle i ddangos eich sgiliau, gallu a photensial. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os ydych angen unrhyw gymorth neu addasiadau rhesymol i'r broses gais.

## Ein Gwerthoedd

**Uniondeb** 🤝 Cawn ein gyrru gan ein hangerdd a'n diben i gefnogi ein haelodau i wella'r cartrefi da, fforddiadwy sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Cymerwn y cyfrifoldeb i fod yn llais y sector o ddifri. Rydym yn ystwyth ac yn dryloyw yn sut y cyflawnwn anghenion ein haelodau.

---

**Effaith** 🚀 Rydym yn hyblyg, chwilfrydig a chreadigol ac mae gennym ymroddiad i ddatrys heriau. Rydym yn dîm bach sy'n cael effaith fawr, yn gyrru cynnydd i sicrhau'r canlyniadau gorau drwy gefnogi,  herio ac ysbrydoli ein gilydd.

---

**Cynhwysiant** ❤️ Rydym yn ymroddedig i degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.

## Prif ddiben y swydd

Mae gan y Cynghorydd Ymchwil a Pholisi ran ganolog wrth lunio gwaith polisi seiliedig ar dystiolaeth ac eiriolaeth CHC. Bydd yn arwain datblygu rhaglen ymchwil ragweithiol, cydlynu prosiectau ymchwil ac yn rhoi dadansoddiad arbenigol i lywio gwneud penderfyniadau strategol. Mae'r swydd yn allweddol i sicrhau fod ein safbwyntiau polisi yn gredadwy, dylanwadol ac yn gydnaws â blaenoriaethau aelodau – gan gefnogi cenhadaeth CHC i sicrhau buddsoddiad a gwella deilliannau tai ledled Cymru.

## Amcanion a chyfrifoldebau allweddol

- Gyrru rhaglen ymchwil CHC ymlaen i sicrhau fod gennym sylfaen tystiolaeth cryf i gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad parhaus mewn tai cymdeithasol yng Nghymru a sicrhau fod ein gwaith eiriolaeth ehangach yn seiliedig ar sylfaen tystiolaeth cryf.
- Darparu dadansoddiad mewnol o ffynonellau data allweddol, meintiol ac ansoddol, i gefnogi ein gweithgaredd eiriolaeth a chydlynu gweithgaredd ymchwil ar draws y gyfarwyddiaeth Polisi a Materion Allanol.
- Sicrhau newid cadarnhaol ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru drwy weithgaredd eiriolaeth effeithlon.
- Adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd cryf ac effeithiol o ymddiriedaeth gyda'n haelodau, partneriaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau i gefnogi ymdrechion i sicrhau newid.
- Arwain gweithgaredd datblygu polisi ar brosiectau a materion allweddol. Dylai hyn gynnwys gweithio'n rhagweithiol gyda'n haelodau a phartneriaid i adeiladu achos cryf a chadarn dros weithredu a diwygio drwy ymgysylltu, perthnasoedd, tystiolaeth a materion cyhoeddus effeithlon.
- Cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, cyfleoedd dylanwadu ac yn y cyfryngau. Gyrru rhaglen ymchwil CHC ymlaen i sicrhau fod gennym sylfaen tystiolaeth cryf i gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad parhaus mewn tai cymdeithasol yng Nghymru a sicrhau fod ein gwaith eiriolaeth ehangach yn seiliedig ar sylfaen tystiolaeth cryf.
- Darparu dadansoddiad mewnol o ffynonellau data allweddol, meintiol ac ansoddol, i gefnogi ein gweithgaredd eiriolaeth a chydlynu gweithgaredd ymchwil ar draws y gyfarwyddiaeth Polisi a Materion Allanol.
- Sicrhau newid cadarnhaol ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru drwy weithgaredd eiriolaeth effeithlon.
- Adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd cryf ac effeithiol o ymddiriedaeth gyda'n haelodau, partneriaid allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau i gefnogi ymdrechion i sicrhau newid.

- Arwain gweithgaredd datblygu polisi ar brosiectau a materion allweddol. Dylai hyn gynnwys gweithio'n rhagweithiol gyda'n haelodau a phartneriaid i adeiladu achos cryf a chadarn dros weithredu a diwygio drwy ymgysylltu, perthnasoedd, tystiolaeth a materion cyhoeddus effeithlon.
- Cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, cyfleoedd dylanwadu ac yn y cyfryngau.

Mae copi llawn o'r disgrifiad swydd ar gael yma. Byddwch yn adrodd i'r Pennaeth Polisi ac Ymchwil.

## Cwrdd â'r tîm Polisi a Materion Lleol cyfredol!

- Rhea Stevens – Cyfarwyddwr Materion Allanol (llanw dros gyfnod mamolaeth, swydd barhaol Pennaeth Polisi a Materion Allanol)
- Elly Lock – Pennaeth Polisi ac Ymchwil
- Bethan Proctor – Pennaeth Polisi a Materion Allanol (llanw dros gyfnod mamolaeth, swydd barhaol Arweinydd Polisi)
- Hayley Macnamara - Arweinydd Polisi
- Bryony Hayes – Arweinydd Polisi
- Bethany Howells – Arweinydd Polisi
- Josh Lovell - Cynghorydd Materion Cyhoeddus a Pholisi
- Tom Spare - Cynghorydd Cyfathrebu
- Alex Myles - Cynorthwyydd Materion Allanol

# Am beth ydyn ni'n edrych?

Isod mae rhestr o'r gofynion sydd eu hangen i ymgymryd â'r swydd hon. Bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r broses ddethol a dylai eich cais ddangos eich gallu i gyflawni'r meini prawf yma.

H - Hanfodol D - Dymunol

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd neu gymhwyster proffesiynol perthnasol |
| **Profiad, gwybodaeth a sgiliau** | Hanfodol:<br>• O leiaf 2 flynedd o brofiad yn gweithio mewn swydd materion cyhoeddus neu ddylanwadu ar ymgyrchoedd<br>• Profiad o sicrhau diwygio a newid drwy bolisi, materion cyhoeddus a datblygu ymchwil effeithlon<br>• Profiad o graffu deddfwriaeth ac ymgysylltu yn y broses |

| | |
|---|---|
| | ddeddwriaethol<br>● Gallu i ddatblygu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus gyda gwneuthurwyr penderfynaidau a gwleidyddol ar draws pleidiau<br>● Wedi datblygu dealltwriaeth o amgylchedd gwleidyddol Cymru a rhwydweithiau cryf<br>● Profiad o weithio mewn amgylchedd dan bwysau, lle mae hyblygrwydd yn allweddol<br>● Profiad o weithredu ymgyrchoedd neu brosiectau llwyddiannus sy'n gwneud argraff<br>● Sgiliau ysgrifenedig rhagorol yn cynnwys y gallu i deilwra cynnwys i wahanol gynuylleidfaoedd<br>● Profiad o siarad cyhoeddus, yn cynnwys y cyfryngau<br>● Gallu i ddefnyddio data, ymchwil ac ymgysylltu i fesur a gwerthuso effaith ein gwaith ac i adeiladu achos dros newid<br>● Mae angen teithio i adeiladu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus a chyflawni ein gwaith.<br><br>Dymunol:<br>● Gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg<br>● Gallu i reoli nifer o brosiectau ar yr un pryd |

# Buddion

## Tâl

£ 39,000

## Oriau

Mae'r swydd yn seiliedig ar 35 awr yr wythnos – gweithio hyblyg.

## Gwyliau

25 diwrnod yn codi gan un diwrnod am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir, hyd at uchafswm o 30 diwrnod a phob gŵyl gyhoeddus (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) ynghyd â phedwar diwrnod ychwanegol i ffwrdd dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

## Cyfnod prawf a goruchwyliaeth

Cyfnod prawf o chwe mis.

## Campfa

Cymhorthdal o £25 y mis.

## Cynllun arian iechyd

Cynllun arian iechyd y telir amdano (Simply Health).

## Cyfnod rhybudd

Ar ôl 6 mis o gyfnod prawf, 2 mis.

## Buddion

Darpariaethau estynedig ar gyfer buddion salwch, mamolaeth/mabwysiadu.

## Pensiwn

Cynllun cyfraniadau diffiniedig y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol. Uchafswm  8% o gyfraniadau cyflogwr.

## Dysgu a datblygu

Cyllideb hyfforddiant unigol

# Sut i wneud cais

- Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais yn amlinellu, mewn dim mwy na 800 gair, sut ydych yn ateb y meini prawf profiad, sgiliau a gwybodaeth a nodir yn yr adran 'yr hyn yr ydym yn edrych amdano' a pham eich bod eisiau'r swydd hon.
- Mae'n RHAID i chi hefyd gynnwys CV wedi ei deilwra yng nghyswllt eich cais am y swydd hon (dim mwy na 3 tudalen).
- Bydd hefyd angen i chi lenwi ffurflen cyfle cyfartal. Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio, a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn parhau'n gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.
- Wrth wneud cais nodwch os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y cynllun gwarantu cyfweliad a nodir yn yr adran uchod ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â **elly-lock@chcymru.org.uk** os gwelwch yn dda.

Rhaid e-bostio'r ffurflen wedi ei chwblhau, CV a ffurflen cyfle cyfartal wedi'i nodi yn **Preifat a Chyfrinachol – Cynghorydd Ymchwil a Pholisi** at **recruitment@chcymru.org.uk.**

Caiff pob ffurflen eu cadw am 6 mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ac i gefnogi'r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais wedi ei gwblhau.